

**CYMDEITHAS TAI WALES & WEST**  
**ADRODDIAD I'R BWRDD – 31 MAWRTH 2022**  
**COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL**

**1.0 Cyflwyniad**

- 1.1 Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg (CIG) Tai Wales & West (WWH) gan y Bwrdd ym mis Medi 2010 ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (BIG) ym mis Rhagfyr 2010.
- 1.2 Cynhaliwyd adolygiad o CIG yn ystod 2021 ac mae mân newidiadau gweinyddol er mwyn adlewyrchu siâp a maint presennol WWH, yn ogystal â diweddariadau i'r manylion cyswllt, wedi cael eu cyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg (CG) i'w cymeradwyo. Disgwylir ymateb maes o law.
- 1.3 Mae gofyn i bob cymdeithas tai yng Nghymru ddarparu diweddariad blynyddol i CG. Mae'r adroddiad sy'n cynnig diweddariad blynyddol yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Chwefror 2022. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl weithgareddau ar draws y Gymdeithas. Cyflwynir papur ar wahân i fyrddau'r is-gwmnïau (Cynnal a Chadw Cambria a Mentrau Castell) ym mis Mai 2022.
- 1.4 Roedd y Gymdeithas wedi parhau i gynnal ei hymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod 2021 wrth i gyfathrebu gyda phreswylwyr yn eu dewis iaith barhau i fod yn bwysicach nag erioed. Er gwaethaf sialensiau pandemig Covid 19, mae WWH wedi parhau i ddarparu cyfathrebu a gwasanaethau dwyieithog, gan annog y defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd weithredol er mwyn cael effaith gadarnhaol a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gymdeithas.

**2.0 Sgiliau Cymraeg**

- 2.1 Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn cynnwys 161 o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac mae'r Gymraeg yn famiaith 46 o'r staff hyn.
- 2.2 Yn ogystal, ceir nifer o aelodau Bwrdd y mae eu gwybodaeth o'r Gymraeg yn amrywio.
- 2.3 Mae pob aelod o staff yn y Gymdeithas wedi cwblhau hunanasesiad o'u sgiliau Cymraeg, yn sgiliau llafar ac ysgrifenedig. Cesglir gwybodaeth am lefelau rhuglder cyflogaeth newydd fel rhan o'u harchwiliadau cyn sicrhau cyflogaeth. Cofnodwyd sgiliau llafar ac ysgrifenedig ar wahân ar system AD y Gymdeithas, sef Cascade. Trwy gasglu'r data mewn porth canolog, gall y staff ddiweddarw lefelau rhuglder wrth iddynt newid.
- 2.4 Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o'r holiadur hunanasesu yn ystod 2021 ac ystyriwyd mabwysiadu fersiwn addasedig o fframwaith Cymdeithas Profwyr Iaith Ewrop (ALTE). Mae fframwaith ALTE yn cynnig cyfeiriad da i gyflogwyr gan ei fod yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o'r hyn y gall unigolion ei gyflawni mewn ffordd ieithyddol (Cymraeg yn y cyd-destun hwn). Mae'r ALTE, fframwaith sgiliau a gaiff ei gydnabod yn eang, yn ffordd o

fesur sgiliau ieithyddol yn ôl y mathau o dasgau cyfathrebu y gall unigolyn eu cyflawni wrth siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu. Rhoddir ystyriaeth bellach i weithrediad fframwaith addasedig ALTE yn ystod 2022.

### 3.0 Hyfforddiant Cymraeg

- 3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, dechreuodd pum aelod o staff ddysgu Cymraeg. Mae dau yn mynychu cyrsiau mewn coleg ac ymunodd tri dysgwr newydd â dewis chwe mis neu ddeuddeg mis 'Say Something in Welsh'.
- 3.2 Mae nifer o aelodau'r Bwrdd yn dysgu Cymraeg o hyd ac maent wedi nodi eu bod yn bwriadu parhau i ddysgu ar ôl pandemig Covid 19. Pan na fu modd cynnal dosbarthiadau, defnyddiwyd apiau fel 'Say Something in Welsh'.
- 3.3 Mae WWH wedi parhau i gynorthwyo dysgu a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg trwy gyfrwng yr ap ar-lein. Mae'r cwrs ieithyddol ar-lein, sy'n addo y bydd pob dysgwr ymroddedig yn siaradwr Cymraeg hyderus cyn pen chwech neu ddeuddeg mis, yn cynnwys tasgau ar-lein wythnosol a galwadau fideo grŵp. Cychwynnodd y peilot ym mis Awst 2018 ac fe'i ariannir gan WWH. Yn ystod 2021/2022:
- Llwyddodd dau aelod o staff i gwblhau lefel 1;
  - Roedd dau aelod o staff wedi ailgychwyn eu dysgu trwy'r dewis 12 mis;
  - Roedd saith aelod o staff wedi penderfynu oedi eu dysgu; ac
  - Roedd un aelod o staff, o'r cyfnod adrodd blaenorol, wedi oedi cwrs dilynol 'In at the Deep End' 'Say Something in Welsh', ond er hyn, mae'n parhau i ddysgu trwy ddefnyddio adnoddau eraill ar lefel ganolradd.
- 3.4 Yn gyffredinol, bu'r adborth gan ddysgwyr yn debyg i'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, gan nodi y bu'r dysgu yn anos, yn rhannol oherwydd ymrwymadau gofalu, addysgu plant gartref a'r ffaith nad ydynt yn gallu cyflawni eu patrwm dysgu ieithyddol dyddiol oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru (LIC) a chyfnodau clo dilynol.
- 3.5 Yn ogystal, mae adborth wedi nodi y byddai adnoddau dysgu ychwanegol, gan gynnwys adnoddau ffisegol, yn cynorthwyo'r dysgu. O ganlyniad i'r adborth, mae WWH wedi ymrwymo i Raglen Cymraeg Gwaith, a gynlluniwyd i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig hyfforddiant perthnasol a hyblyg wedi'i ariannu'n llawn. Hyrwyddwyd yr holl gyfleoedd dysgu o fewn rhaglen Cymraeg Gwaith a 'Say Something in Welsh' yn ystod Gŵyl Grŵp WWHG yn ystod mis Mawrth 2022. Yn ogystal, hyrwyddwyd 'Cwrs Rhagarweiniol Croesawu' Cymraeg Gwaith er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg cwrteisi yn adran 'A wyddoch Chi' yn y cyhoeddiadau mewnol. Er mwyn cynorthwyo gydag adnoddau ffisegol, mae geirfa yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd, a fydd yn cynnwys cyfarchion ac ymadroddion er mwyn cynorthwyo gyda dysgu, a bydd hon ar gael ar Deilsen Dysgu Cymraeg.
- 3.6 Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, mae teilsen 'Dysgu Cymraeg' yn parhau i gael lle blaenllaw ar dudalen flaen y fewnwyd ac ar ôl troi ati, mae'n darparu manylion yr holl gyfleoedd dysgu a chymorth gan gynnwys gwybodaeth ynghylch 'Say Something in

Welsh'. Yn ystod 2021, adolygwyd a diweddarwyd teilsen Dysgu Cymraeg er mwyn cynnwys adnoddau a chyfleoedd dysgu newydd. Yn ogystal, mae'n darparu manylion yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas, sy'n cynorthwyo gyda mentora anffurfiol, adnoddau defnyddiol, dyddiadau a manylion digwyddiadau mewnol a diwylliannol Cymreig, ymadrodd yr wythnos, templed dwyieithog ar gyfer negeseuon e-bost bod rhywun allan o'r swyddfa a chyfleoedd i gynorthwyo a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

- 3.7 Yn ystod 2021, ffurfiolwyd sesiynau mentora wythnosol 'Coffi a Sgwrs' er mwyn cynorthwyo a chefnogi dysgu Cymraeg a hyrwyddwyd y sesiynau yn ystod Gŵyl Grŵp WWH. Yn ystod 2021/2022, mae naw aelod o staff ar draws y grŵp wedi manteisio ar y cyfle i ymarfer eu Cymraeg yn ystod y cyfarfodydd hyn bob dydd Mercher. Bu'r adborth gan staff a oedd wedi mynychu a syniadau gan y grŵp yn gadarnhaol iawn, fel rhannu geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystod digwyddiadau penodedig megis Santes Dwynwen wedi cael eu cynnwys yng nghyhoeddiadau mewnol 'A Wyddoch Chi'. Nododd un aelod o staff eu bod yn "edrych ymlaen i ddydd Mercher".

#### **4.0 Hyrwyddo'r Gymraeg**

- 4.1 Yn ystod y cyfnod a ystyrir yn yr adroddiad hwn, bu sawl achos lle y mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo'n fewnol gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi a chyhoeddiadau er mwyn hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol niferus megis; Santes Dwynwen, Mari Lwyd, Wythnos Eisteddfod AmGen, ac Owain Glyndŵr. Yn ystod Diwrnod "Shwmae Su'mae", bu WWH yn dathlu trwy gynnal cinio Cymreig rhith a thrydar fideo "Shwmae Su'mae" gan aelodau o staff ar draws Cymru. Yn ogystal, roedd WWH wedi cymryd rhan yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg, sef diwrnod cenedlaethol i ddathlu a hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan WWH ac i amlygu'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda WWH. Roedd cyhoeddiadau mewnol misol yn adran 'A wyddoch Chi' wedi parhau, a oedd yn cynnwys ffeithiau diwylliannol dwyieithog, hyrwyddo digwyddiadau ar-lein gan gynnwys Wythnos Hinsawdd Cymru a gwybodaeth ynghylch dyfeiswyr Cymreig a thraddodiadau Cymreig. Ni fu modd casglu data gwyllo yn ystod 2021 oherwydd problemau gyda ffrwd newyddion Microsoft, fodd bynnag, mae'r mater hwn wedi cael ei ddatrys erbyn hyn a chaiff data ei goladu yn ystod 2022.
- 4.2 Oherwydd pandemig Covid 19, ni fu modd cefnogi digwyddiadau (megis Ras yr Iaith) neu ddatblygu gwaith mewn partneriaeth gyda Mentrau Iaith a Chylchoedd Meithrin oherwydd cyfyngiadau LIC. Fodd bynnag, bydd cefnogi'r digwyddiadau hyn yn parhau i gael ei gynnwys yn y cynllun, a bydd y gweithgarwch hwn yn cychwyn pan fydd hynny'n ymarferol.
- 4.3 Mae'r iaith Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo yn y ffyrdd canlynol hefyd:
- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg trwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith i ddynodi siaradwyr Cymraeg. Caiff y troedyn mewn negeseuon e-bost sy'n dangos y croesawir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ei gynnwys yn negeseuon e-bost allanol yr holl siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn ystod 2021, cafodd hwn ei gynnwys mewn negeseuon e-bost mewnol hefyd. Yn ogystal, gall y rhai sy'n dysgu Cymraeg nodi eu bod yn dysgu

Cymraeg mewn negeseuon e-bost mewnol, sy'n cynorthwyo ac sy'n annog defnydd o'r iaith Gymraeg wrth weithio mewn ffordd rith. Yn ogystal, cynigir bathodynau a laniardiau iaith Gwaith i'r holl staff sy'n dysgu neu sy'n rhugl, er mwyn gallu eu hadnabod, fel y gall pobl arall gychwyn sgwrs gyda nhw yn Gymraeg.

- Roedd Gŵyl Grŵp WWH yn 2021 yn cynnwys sesiwn ddwyieithog Gymraeg a fynychwyd gan 20 o staff. Roedd y sesiwn yn cynnig trosolwg o weledigaeth Gymraeg 2050 LIC, diweddariad am statws cyfredol Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector, roedd yn amlygu dogfennau allweddol, megis Cynllun yr Iaith Gymraeg, Protocolau'r Gymraeg a gweithdrefnau cyfieithu, gwybodaeth am weithgareddau WWH mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac yn olaf, roedd yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Gymraeg gan gynnwys 'Say Something in Welsh'.
- Bu WWH yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol dwyieithog, a oedd yn cynnwys: -
  - Gweithgareddau hwyl ac i deuluoedd yn Nhau Pedr ac yng Ngolwg y Castell (Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi).
  - Cynnig cyngor a chymorth dwyieithog yn Llanbedr Pont Steffan gyda Phrosiect Bwyd Llanbedr Pont Steffan ac Incredible Edible er mwyn annog cymunedau i dyfu eu llysiau eu hunain.
  - Cynorthwyo, darparu a hyrwyddo sesiynau Celf a Chrefft ar y cyd â Thir Coed mewn Cynllun Llety Gwarchod.
  - Cynorthwyo ysgolion Cymraeg a ddwyieithog gyda digwyddiadau gyrfaoedd h.y., cynorthwyo gyda chyfweliadau ffug (wrth i staff ddefnyddio eu Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn ôl) yn Ysgol Calon Cymru.
  - Gweithio gyda'n contractwyr a'n cyflenwyr i lunio collage o fideos ar gyfer Gyrfa Cymru i'w rhannu gydag ysgolion, y mae rhai ohonynt ar gael yn Gymraeg hefyd.
- Yn hanesyddol, mae'r Gymdeithas wedi noddi digwyddiadau niferus dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid 19, bu'r cyfleoedd yn gyfyngedig. Er hyn, yn ystod y cyfnod adrodd, noddodd y Gymdeithas nifer o grwpiau, a oedd wedi costio ychydig dros £4,000, er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu ac er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg: -
  - Cynorthwywyd Ysgol Maenclochog gyda gwaith ar du blaen yr ysgol.
  - Cynorthwywyd Tredoc bach sy'n cynnig cyfle i berfformwyr cerddorol lleol i hyrwyddo adloniant lleol a Chymraeg, sy'n cynorthwyo wrth addysgu ac ysbrydoli pobl.
  - Rhoddwyd grant i Ysgol Feithrin Felin-fach i brynu pedair llechen i gynorthwyo gyda'u dysgu dwyieithog.

## 5.0 Cyfathrebu yn Gymraeg

- 5.1 Mae nifer fach o breswylwyr (79 at ei gilydd) wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg ac maent wedi nodi eu dewisiadau mewn perthynas â

chyfathrebu ysgrifenedig, cyfathrebu ar lafar neu'r ddau. Yn ogystal, mae 1,370 o breswylwyr yn cael copïau dwyieithog o In Touch.

- 5.2 Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu o hyd ynghylch dewis iaith fel rhan o weithgarwch proffilio preswylwyr. Cedwir data ynghylch dewis iaith 67% o breswylwyr ac mae'n hawdd i staff ddiweddarau hyn trwy Resco, yr ap gweithio symudol, neu ei ddiweddarau'n uniongyrchol yng nghronfa ddata Dynamics. Mae dewis iaith ar gael i'r holl staff ei weld a bydd gohebiaeth a gychwynnir gan WWH yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd gan y preswlydd pan fydd manylion ynghylch eu dewis wedi cael eu casglu. Anfonir copi dwyieithog o'r holl ohebiaeth yng Ngorllewin Cymru a bydd hyn yn parhau nes i ni gael gwybodaeth ynghylch dewis llawn y preswylwyr hyn.
- 5.3 Mae WWH yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Pan fydd pobl yn ffonio prif rif ffôn WWH, bydd y neges gyntaf yn cynnig dewis iaith i bobl. Caiff yr holl alwadau a wneir yn ystod oriau swyddfa ac sy'n dewis y Gymraeg eu trosglwyddo i rywun y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Mae cyfanswm y galwadau sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg wedi gostwng 57% er 2018 i 759 ym mis Chwefror 2022. 0.68% yw canran y galwadau Cymraeg a wneir yn ystod oriau swyddfa. O ganlyniad i newidiadau yn y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, cynhelir prosiect i adolygu gwasanaethau telefoni Cymraeg ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod gwasanaeth teg yn cael ei gynnal yn ystod galwadau a wneir yn ystod oriau swyddfa.
- 5.4 Mae WWH yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol yn ogystal â defnyddio staff dynodedig sy'n ymateb ac sy'n rhoi blaenoriaeth i unrhyw waith yn unol ag anghenion y Gymdeithas. Cyflawnir yr holl weithgarwch prawffddarllen yn fewnol a chan wahanol gyfieithydd er mwyn cael barn annibynnol sy'n sicrhau bod pob darn o waith yn gyson ac y defnyddir terminoleg gyffredin. Adolygwyd y weithdrefn gyfieithu a gyflwynwyd ar ôl cyhoeddi dogfen gynghori CG, sef 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb' yn ystod 2022 ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff. Mae cyhoeddi dogfen gynghori CG wedi arwain at gyfathrebu gyda'r Uned Technolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor hefyd, a luniodd feddalwedd cof cyfieithu Cyfieithu Cymru, gyda'r nod o ddefnyddio'r adnodd yn y dyfodol.
- 5.5 Mae gwefan WWH yn hollol ddwyieithog ac yn addas i'w defnyddio ar ddyfeisiau symudol. Yn ystod 2021/2022, fe'i gwelwyd gan ymwelwyr allanol 61,750 gwaith yn Saesneg a 776 gwaith yn Gymraeg, o'i gymharu gyda 68,758 gwaith (Saesneg) ac 810 gwaith (Cymraeg) yn ystod 2020/2021. Roedd y dudalen Gymraeg yr edrychwyd arni amlaf yn Gymraeg yn ymwneud â Chwilio am Gartref, ac fe'i gwelwyd 155 gwaith, a dilynwyd hyn gan y dudalen Gyrfaoedd (106) a thudalen Cysylltu â Ni (104). Mae dogfen CIG ac Adroddiad Diweddariad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan. Mae'r Gymdeithas yn defnyddio nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd, gan gynnwys Facebook, Instagram a Twitter er mwyn rhannu negeseuon corfforaethol, newyddion a swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 5.6 Mae'r protocolau mewnol ac allanol am yr iaith Gymraeg wedi bod yn eu lle er mis Medi 2017 ac fe'u hadolygwyd yn 2021. Mae'r protocolau, sydd ar gael ar fewnrwyd y staff, yn cynnig arweiniad am y ffordd y mae WWH yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r protocolau yn datblygu'r CIG a gymeradwywyd ac yn gwneud mwy o

ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol. Mae'r holl arwyddion yn swyddfeydd WWH yn ddwyieithog.

5.7 Yn dilyn adolygiad o'r rhestr gyfeirio hunan-reoleiddio a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan CG, mae nifer y swyddi newydd a gwag yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael ei chynnwys yn niweddariad blynyddol 2021/2022. Rhwng mis Mawrth 2021 a mis Chwefror 2022, hysbysebwyd 78 o swyddi newydd neu wag, a hysbysebwyd pob un o'r rhain yn ddwyieithog. Roedd pob un yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl er nad oedd unrhyw rolau yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys gofyniad penodol am yr iaith Gymraeg.

## 6.0 Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.

## 7.0 Diweddariad am weithredu Safonau'r Gymraeg

Oedwyd y rhaglen o baratoi safonau yn ystod 2018-19 ar ôl ail-archwilio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, ac o ganlyniad i bandemig Covid 19 ac wrth i LIC ail-flaenoriaethu adnoddau, bu oedi pellach. Ar hyn o bryd, mae LIC a CG yn gweithio i leihau'r rhwystrau sy'n bodoli wrth geisio pennu Safonau'r Gymraeg; symleiddio'r broses er mwyn gweithredu safonau, heb wanhau eu heffaith ac maent wedi ymrwymo i ddechrau gweithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai yn ystod y tymor hwn.

## 8.0 Cyfathrebu a chynllun gweithredu Comisiynydd y Gymraeg

Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion na diwygiadau ar ôl cyflwyno cynllun gweithredu ac adroddiad monitro blynyddol 2020/2021 i CG. Os caiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd, cyflwynir yr adroddiad monitro a'r cynllun wedi'i ddiweddarau yn Atodiad 1 i CG yn y ffordd arferol. Fel yr adroddwyd uchod, nid yw'r SG a adolygwyd wedi cael ei chymeradwyo eto. Ar ôl ei chymeradwyo, bydd y fersiwn newydd yn disodli'r fersiwn presennol ar y wefan ac yn cael ei hyrwyddo'n fewnol.

## 9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR bod y Bwrdd: -

- i. yn nodi'r adroddiad; ac yn
- ii. cymeradwyo'r cynllun gweithredu yn [Atodiad 1](#).

**Alex Stephenson**

**Cyfarwyddwr Gweithredol (Gwasanaethau a Strategaeth Gorfforaethol)**

23 Mawrth 2022

ATODIAD 1

**Comisiynydd y Gymraeg – Diweddariad Blynyddol 2021/22 – Cynllun Gweithredu yr Iaith Gymraeg**

<b>Gweithredu</b>	<b>Tasg</b>	<b>Dyddiad targed</b>	<b>Grŵp sy'n gyfrifol</b>
<b>Hyfforddiant Cymraeg</b>	Parhau i hyrwyddo'r holl gyfleoedd i ddysgu Cymraeg (ar bob lefel).	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu/Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Annog yr holl gyflogeion i ddilyn Cwrs Rhagarweiniol Croesawu Cymraeg Gwaith er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg cwrteisi yn y gweithle.	Mawrth 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Annog yr holl gyflogeion newydd i gymryd rhan a dysgu'r Gymraeg trwy amlinellu a chyfeirio at yr holl gyfleoedd yn ystod y broses ymsefydlu.	Mai 2022	Tîm Dysgu a Datblygu/Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau i hyrwyddo hyfforddiant 'Say Something in Welsh'.	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu/Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau i sicrhau a choladu adborth gan gyfleuster hyfforddiant Cymraeg 'Say Something in Welsh' ac 'In at the Deep End' pan fo hynny'n berthnasol.	Rhagfyr 2022	Tîm Dysgu a Datblygu
	Casglu data mewnol ynghylch gweithgarwch cofrestru ac ymgysylltu gyda'r cyfleoedd dysgu Cymraeg a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Cymraeg Gwaith).	Chwefror 2023	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Sgiliau Cymraeg</b>	Parhau gyda sesiynau mentora Coffi a Sgwrs wythnosol er mwyn cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol, er mwyn datblygu a chynorthwyo'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cyflwyno fframwaith addasedig Cymdeithas Profwyr Iaith Ewrop (ATLE) fel rhan o'r archwiliadau cyn sicrhau cyflogaeth ac ystyried ei weithredu a'i ddsbarthu ymhlith cyflogeion presennol.	Medi 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol/ Tîm AD

Gweithredu	Tasg	Dyddiad targed	Grŵp sy'n gyfrifol
	Cychwyn Clwb Clonc misol ar draws y grŵp er mwyn cynnig rhwydwaith i staff ymgysylltu gyda dysgwyr eraill a siaradwyr Cymraeg.	Rhagfyr 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cwblhau'r adolygiad o wasanaeth teleffoni yr iaith Gymraeg yn ystod oriau gweithredol yng ngoleuni'r newidiadau mewn perthynas â'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid.	Mai 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol/Tîm Tai/TGCh
	Parhau trafodaethau gyda'r Uned Technolegau Iaith mewn perthynas â meddalwedd cof cyfieithu Cyfieithu Cymru a chychwyn ar brosiect adolygu dogfen Gyfieithu.	Tachwedd 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg</b>	Creu rhaglen o ddigwyddiadau ar draws y Gymdeithas a fydd yn cynnwys diwrnodau Cymraeg yn y Gwaith ar Ddiwrnod 'Shwmae Su'mae' ac ar Ddydd Gŵyl Dewi gan gynnwys digwyddiadau allanol er mwyn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y Gymdeithas.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg a adolygwyd ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.	Awst 2021	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cefnogi digwyddiadau a mentrau Cymraeg yn y gymuned sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg pan fo hynny'n briodol.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau a datblygu ein partneriaethau gyda phartneriaid Menter Iaith, ysgolion a Chylchoedd Meithrin yn y gymuned.	Parhaus	Tîm Tai a'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau gyda Safonau'r Gymraeg, y gallent effeithio ar y ffordd y mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau yn allanol ac yn fewnol pan fo hynny'n briodol.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau gyda'r ymrwymiad i noddi 'Clwb Miliwn' dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad y prosiect.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau gyda chyhoeddiadau misol 'A wyddoch chi' ar y platfform mewnol a choladu adborth a data.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol



<b>Gweithredu</b>	<b>Tasg</b>	<b>Dyddiad targed</b>	<b>Grŵp sy'n gyfrifol</b>
	Cynnal sesiwn Gymraeg yn ystod Gŵyl Staff y Grŵp a choladu unrhyw adborth ac awgrymiadau o'r sesiwn a chymryd camau priodol yn eu cylch.	Mai 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Datblygu fideos dwyieithog neu fersiynau Cymraeg wrth baratoi fideos recriwtio/sy'n gysylltiedig gyda'r staff.	Parhaus	Tîm AD/Tîm Gwasanaethau Corfforaethol/ Tîm Cyfathrebu
<b>Dewis iaith</b>	Adolygu'r arferion cyfredol ynghylch casglu data proffilio preswylwyr er mwyn cynyddu swm y wybodaeth a gedwir, yn enwedig mewn perthynas â dewisiadau iaith.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cofnodi a monitro'r ceisiadau dros y ffôn am y dewis Cymraeg.	Parhaus	TGCh
<b>Adrodd am y Gymraeg</b>	Adrodd i'r Bwrdd bob blwyddyn a chyflwyno hwn i Gomisiynydd y Gymraeg.	Mawrth 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Monitro</b>	Monitro bod y systemau sydd yn eu lle yn cynorthwyo dull gweithredu cyson er mwyn darparu dewisiadau iaith ar draws y Gymdeithas.	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol